



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Mai 2014
Rhifyn 207

www.henaduriaetharfon.org



Oedfaon y Sul

- 4 Mai - Bore: **Gweinidog**
Hwyr: (4 pm): **Uno yn Salem**
- 11 Mai - Bore a Hwyr: **Y Parchg Megan Williams**
- 18 Mai - Bore: **Gweinidog / Oedfa Deulu**
Prynawn o hwyl yn Noddfa i gloi wythnos **Cymorth Cristnogol**
Bydd y gweithgareddau'n cychwyn am **1.30pm**. Bydd yno stondinau a
chastell neidio a chynhelir oedfa am **3pm**.
Bydd cŵn poeth a diod ar werth cyn mynd adref.
- 25 Mai - Bore a Hwyr: **Y Parchg William Davies**
- 1 Mehefin - Bore: **Gweinidog** Gweinyddir y Sacrament o Gymun
Hwyr: (4pm): **Uno yn Salem**

Wythnos Cymorth Cristnogol 11 - 17 Mai 2014

Digwyddiadau Mis Mai

Nos Lun 12 Mai - **Trip y Gymdeithas Lenyddol i Ben Llŷn**. Pris £15 yn cynnwys
bwyd. Ceir rhagor o fanylion gan Mrs Gweno Parry (669309)

Nos Sadwrn 17 Mai (7.30pm) yn y Gadeirlan, Bangor. Cantorion Menai yn cyflwyno 'Eleias' gan
Mendelssohn. Ymhlith yr unawdwyr y mae **MEINIR ROBERTS** (Tocynnau: 01248 717542)

Nos Fawrth 20 Mai (7pm) - **Pwyllgor Gwaith Chwiorydd Seilo**

Nos Fercher 21 Mai (7pm) - **Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd Henaduriaeth Arfon** yn Seilo.
Sgwrs gan Mr Alun Roberts - 'Y Bocs Bwyd' a chyflwyniad gan ieuentid
Eglwys Jerwsalem Bethesda ar y thema 'Byw ar 'Chydig'

Dydd Iau 5 Mehefin (7pm) - **Hyfforddiant gan y Panel Diogelwch Cyd-enwadol**
Noson o hyfforddiant ym Merea Newydd, Bangor i bawb
sy'n ymwneud â phlant ac oedolion bregus yn ein heglwysi. Croeso i bawb.

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)
Y Gell Weddi - bob dydd Iau (10.30am)

Noson Goffi yn Theatr Seilo

Nos Wener, 20 Mehefin. Mynediad trwy docyn. Pris £1
Tocynnau ar werth yn fuan gan chwiorydd yr eglwys
Yr elw tuag at Seilo a Chymdeithas y Clefyd Alzheimer

Am Eiliad

Tra mewn Ffair Hen Greiriau yn ddiweddar deuthum ar draws stondin ddiddorol iawn yn llawn o addurniadau tegan (ornaments) a nifer ohonynt yn dynodi tref neu bentref arbennig yng Nghymru. Yr hyn â'm denodd i oedd yr amrywiaeth rhyfeddol o enwau lleoedd. Yn eu plith roedd jwg o Lanerchymedd, cwpan a soser o Dalysarn, tebot bach o Garmel a phlat o Rhosgadfan. Gallwn ddychmygu plentyn yn mynd i aros at taid a nain yn Nhalysarn ac yn prynu anrheg bach i fynd adra i'w fam – 'A Present from Talysarn'! Wrth reswm, yn y cyfnod hwnnw, ar droad y ganrif ddiwethaf, roedd Talysarn a Rhosgadfan fel Carmel a Llanerchymedd yn bentrefi ffyniannus ac ynddynt sawl siop yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau ynddynt. Roedd marchnad brysur yn Llanerchymedd a'r chwareli yn sicrhau bwrlwm o ddiwylliant yn Rhosgadfan, Carmel a Thalysarn. Y fath newid a fu yn ystod y blynyddoedd diwethaf! Mae'r Capel Mawr yn Nhalysarn wedi hen gau a rhyw ddeng mlynedd yn ôl gwelwyd cau capel Rhosgadfan.

Ond gan mlynedd yn ôl, fwy neu lai, rhoddwyd cymaint o fri a gwerth ar y pentrefi bach hyn nes gweld yn dda i gynhyrchu creiriau yn arbennig ar eu cyfer ac yn sicr bu cannoedd ohonynt ar hyd y blynyddoedd yn harddu silffoedd a threselydd led-led Cymru.

Prin y bu'r un pentra'n rhy fach na dinod i gael ei enw ar lestri y bwriadwyd iddynt gael eu prynu fel cofroddion

Wyddoch chi, does neb ychwaith yn rhy fach na dinod i gael ei gyfrif yn blentyn i Dduw, a gallwn nodi'n hyderus fod delw'r Creawdwr ar bawb yn ddiwahan. Rhodd oddi wrth Dduw yw pob bywyd, a dylai'n byw beunyddiol ni adlewyrchu hynny. Rwy'n hoff iawn o'r geiriau hyn a welir yn Llyfr y Proffwyd Eiseia, pan ddywed Duw am ei bobl, eu bod "yn werthfawr yn ei olwg, yn ogoneddus ac yntau'n eu caru." (Eiseia 43:4)

Pan gollir golwg ar berthynas Duw â dyn, fe gyll bywyd ei urddas a'i werth a gwelir canlyniadau hynny o'n cwmpas ym mhob man. Nid oes ond rhaid darllen y papurau dyddiol neu wrando ar newyddion y dydd i sylweddoli'r canlyniadau hynny.

Yn ystod mis Mai cawn, fel Cristnogion, y fraint o gydweithio i hyrwyddo gwaith Cymorth Cristnogol yn ein hardaloedd. Nod y mudiad yw cynnig 'bywyd cyn marw' i bob unigolyn. Trwy bwysleisio fod gan bawb 'hawl i fyw' pwysleisir gwerth bywyd a phwysigrwydd adfer urddas i bob unigolyn beth bynnag fo'i gefndir.

Ein braint eto eleni fydd cerdded o dŷ i dŷ ac o stryd i stryd gan wybod y bydd ein hymdrechion yn gwneud

gwahaniaeth i fywydau pobol dlawd De Sudan a Colombia.

Gwenda Richards

Coffâd

Mr Elis Llewelyn Jones, Tegfan, Ffordd Cae Garw, Rhosbodruaal

Hanai Llew Jones o Ddeiniolen a gwyddai am galedi bywyd y chwarel lle bu'n gweithio gyda'i dad am gyfnod byr wedi iddo adael yr ysgol. Yn dilyn ei 'Wasanaeth Cenedlaethol' yn yr Almaen, bu'n gweithio yn Nolgarrog ac yna yn Ferodo hyd ei ymddeoliad. Roedd yn sgwrsiwr heb ei ail ac wrth ei fodd yng nghwmni ei deulu a'i ffrindiau. Diolchwn am ŵr ffyddlon, tad gofalus a thaid oedd yn meddwl y byd o'i wyresau. Cydymdeimlwn â'i briod Catherine, ei fab Eilir a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mrs Bessie Hughes, Gwynfa (Pros Kairon, Ffordd Buddug gynt)

A hithau newydd ddathlu ei phenblwydd yn gant a phedwar, bu farw Mrs Bessie Hughes yng Nghartref Gwynfa. Cofiwn yn annwyl iawn amdani fel gwraig dlos, daclus ac urddasol. Bu'n gefn aruthrol i'w phriod, y diweddar Barchedig Gwilym Hughes, a gweithiodd yn galed yn ei rôl fel 'gwraig y gweinidog'. Bu'n fam heb ei hail i Arwel, Wyn, Meirion a'r ddiweddar

Carys. Bu colli Carys mor ieueinc yn wewyr calon iddi. Cydymdeimlwn â'r hogia a'r teulu oll yn eu colled. Cynhelir ei hangladd yn Seilo am 1.30 dydd Llun, 12fed o Fai.

Wrth gydymdeimlo â'r teuluoedd dymunwn nerth Duw iddynt yn eu galar a'u hiraeth.

Gwaeledd

Bu amryw o aelodau'r eglwys yn wael yn ystod y mis ac anfonwn ein cofon cynhesaf a'n dymuniadau da am wellhad buan atynt oll. Mae **Mr Wil Lloyd Davies**, Llanddwyn, 10 Ffordd Menai, yn Ysbyty Glangwili ac yn disgwyl llawdriniaeth ac mae **Mr Irfon Roberts**, Afonlan, Cae Gwyn, mewn ysbyty yn Tenerife yn dilyn anffawd tra roedd ar ei wyliau yno. Mae **Mrs Mair Parry Owen**, 3 Llys Gwyn (Stryd Dinorwig gynt) yn Ysbyty Cefni ac mae **Mrs Catherine Jones**, Tegfan, Lôn Cae Garw, yn Ysbyty Bryn Beryl. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â hi yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod. Mae **Mr Harry Jones**, Bod Hyfryd, Ffordd y Gogledd, yn Ysbyty Gwynedd. Yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Eryri, mae **Mrs Megan Williams** bellach yn ôl yng Nghartref Gwynfa, a **Mrs Beryl Jones**, yn ôl ar ei haelwyd yn 41 Rhes Assheton. Mae **Mr Emyr Parry**, Tre'r Ceiri, 5 Llwyn Ceirios, yntau adref wedi treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Gwynedd. Treuliodd **Mr David**

Elwyn Williams, 7 Ala Las, Ffordd Bangor, gyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd ac mae'n disgwyl ail driniaeth yno y dyfodol agos. Mae **Mrs Mair Jones**, Hendy, adref wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuno'n Dda

Dymunwn yn dda i'r **Parchedig Ddr Elwyn Richards** wrth iddo esgyn i gadair Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd. Cafodd ei sefydlu yn Eisteddiad Nos Fawrth, 6 Mai, o'r Gymdeithasfa yn Llanannan.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i **Mr Llŷr Gwyn Lewis** ar gyhoeddi ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth, a hefyd i **Mr Meirion Hughes** wedi iddo yntau gyhoeddi cyfieithiad Saesneg o'i lyfr diweddaraf ar hanes tref Caernarfon. Dymunwn yn dda i'r bardd a'r hanesydd gan ymfalchio yn eu llwyddiant.

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ystod mis Mai: **Mrs Kitty Roberts** (4); **Mrs Edith Evans**, (11); **Mrs June Jones a Mrs Iid Angel** (18); y **Parchedig Gwenda Richards** (25); **Mrs Joan Massey** (1 Mehefin).

Cymdeithas y Chwiorydd

Ar nos Lun Ebrill 7fed daeth naw ar hugain o aelodau ynghyd i fwynhau swper ardderchog a chymdeithasu yn y Clwb Golff eto eleni. Croesawodd ein llywydd, Lis Lloyd Davies, ni yn gynnes iawn a chymerodd gipolwg yn ôl ar y cyfarfodydd diddorol a gawsom yn ystod y flwyddyn. Diolchodd i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith yn sicrhau tymor llwyddiannus ac i'r aelodau am eu cefnogaeth. Yn dilyn y pryd blasus ymunodd pawb yn yr hwyl o ateb cwestiynau'r cwis a chwblhau llinell goll limrig. Da oedd gweld bod cymaint ohonom yn adnabod ein tonau a'n hemynau mor dda, a bod beirdd addawol iawn yn ein plith. Cawsom gyfle ar derfyn y noson i enwebu aelodau newydd i'r pwyllgor ac edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus arall.

Marian Parry Jones

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn 20fed o Fai.

Gweinidog: **Parchg Gwenda Richards 676435**
Golygydd: **Mrs Angharad Rhys Williams 674865**